



Ble mae Kenya?

Helô! Fy enw i yw Gitonga
a dw i'n 6 oed.
Dw i'n byw yn Mombasa
yn nwyrain Kenya.
Gwlad ar gyfandir
Affrica ydy Kenya.

Dinas fawr ar
yr arfordir, ger
Cefnfor India,
ydy Mombasa.



Jambo! Fy enw i yw
Amondi a dw i'n 7 oed.
Dw i'n byw yn Kericho
yn ne-orllewin Kenya.
Dydy Kericho ddim yn
bell o Fynydd Kenya.
Dw i'n siarad Swahili.



- **Cyd-destun:** Kenya – cyflwyno'r wlad, lleoliad y wlad, siâp y wlad, prifddinas, dinasoedd, hinsawdd, ieithoedd.

- **Ffeithiau:** Lleoliad – yn nwyrain cyfandir Affrica. Ffinio ag Ethiopia, Somalia, Uganda, Sudan, Tanzania, Llyn Victoria, Cefnfor India. Prifddinas – Nairobi. Dinasoedd mwyaf – Mombasa, Kisumu, Nakuru, Eldoret. Baner – du, coch, gwyrdd a gwyn, gyda llun o darian llwyth y Masai a gwaywffyn yn y canol. Lleoedd ac adeiladau enwog – Canolfan Eliffantod Amddifad Sheldrick, Parc Cenedlaethol Nairobi, Gwarchodfa Genedlaethol Masai Mara, Diffeithwch Chalbi, Llyn Turkana, Ynys Lamu, Great Rift Valley, Mombasa. Hinsawdd – trofannol: yr arfordir gorllewinol yn boeth a llaith, tua 30 °C; y canolbarth yn dymherus, tua 22 °C; y gogledd a'r gogledd-ddwyrain yn sych a phoeth iawn, tua 40 °C. Arian – swllt Kenya. Ieithoedd swyddogol – Swahili, Saesneg. Crefydd – Cristnogaeth (tua 70%), Islam.

- **Cyfeiriadau yn atlas 'O Bedwar Ban Byd 2':** tt. 2–3, 4–5 ac 8–9.

- **Sgiliau:** Archwilio ac arbrofi, ymchwilio i ffynonellau a materion, disgrifio'r hyn maen nhw wedi'i ddarganfod a chynnig esboniadau syml, mynegi eu barn.

- **Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd:** Lleoedd a phobl – defnyddio a llunio mapiau syml er mwyn darganfod ble mae lleoedd penodol a sut mae lleoedd yn cysylltu â lleoedd eraill; adnabod y nodweddion naturiol, e.e. afonydd, a'r nodweddion a grëwyd gan ddyn, e.e. adeiladau, yn eu hardal eu hunain; defnyddio atlasau a globau.

- **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol:** Datblygu hunanddelwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn fel aelod o wahanol gymunedau, a deall eu Cymreictod eu hunain; trafod lliw croen; trin pawb yn deg.

- **Cwestiynau i'w gofyn:** Ble mae Kenya? Beth yw gwlad? Beth yw cyfandir? Ar ba gyfandir mae Kenya? Ble mae Cymru? Ar ba gyfandir mae Cymru? Ble yn Kenya mae Gitonga yn byw? Ble yn Kenya mae Amondi yn byw? Beth yw enw prifddinas Kenya/Cymru? Ble rydych chi'n byw? Pa iaith mae Amondi yn ei siarad? Pa fath o dywydd sydd yn Kenya?

- **Tasgau ffocws/heriau:**

- Defnyddio'r atlas i ddarganfod ble mae Kenya – edrych ar y dudalen gynnwys i weld ar ba dudalennau mae Kenya; edrych ar y map o'r byd i weld ar ba gyfandir mae Kenya (Affrica).
- Defnyddio glôb i ddarganfod ble mae Kenya/Cymru.
- Cornel ysgrifennu – beth hoffech chi ei wybod am Kenya? (Meddwl am gwestiynau a dod o hyd i atebion iddyn nhw.)
- Creu map mawr o Kenya/Affrica y tu allan, gyda ffa coffi neu de. Labelu'r brifddinas a lleoliadau'r cymeriadau a chreu allwedd syml.
- Defnyddio te/ffa coffi i lunio rhai o nodweddion/tirluniau Kenya.

- **Gwaith ymchwiliol/ymestynnol:**

- Chwilio am fwy o wybodaeth am Kenya – mewn llyfrau cyfair neu ar y we.
- Chwilio am wybodaeth am ystyr lliwiau baneri Kenya/Cymru.
- Ymchwilio i dywydd Kenya – pam mae Kenya yn wlad boeth? Edrych ar dudalennau 2–3 yr atlas – mae Kenya ar y Cyhydedd (ac mae Diffeithwch Chalbi yno).
- Mesur a chofnodi'r tywydd yng Nghymru am wythnos a chymharu'r tymheredd/glawiad â thywydd Kenya.

- **Adnoddau:** atlas, glôb, ffa coffi, te, llyfrau cyfair, offer i fesur y tywydd, offer celf a chrefft, offer digidol.

- **Geirfa:** y byd, cyfandir, gwlad, prifddinas, dinas, Cymru, Kenya, Ewrop, Affrica, baner, tir, môr, afon, llyn, mynydd, ynys, tywydd, hinsawdd, trofannol, tymherus, diffeithwch, cefnfor, parc cenedlaethol, gwarchodfa, amddifad, ffin/ffinio â ..., byw yn ..., teithio i ...

- **Cymariaethau â diwylliant Cymru:** Cyfarch ei gilydd yn Gymraeg a Swahili, e.e. Helô – *Jambo*; diolch – *asante*. Cymharu baneri Cymru a Kenya; cymharu tywydd y ddwy wlad.